# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com

£1

Mehefin 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 9

## Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd




Mabon – 1af yn yr unawd, Blynyddoedd 5 a 6, a 1af yn y ddeuawd, gyda'i ffrind Iestyn. Roedd hefyd yn aelod o sawl parti a chôr arall o Ysgol Pen Barras.



Medi, chwaer Mabon – yn ail yn y gystadleuaeth unawd, ac yn drydydd yn yr unawd cerdd dant, Blwyddyn 2 ac iau.




Leusa Jên – 1af ar y gystadleuaeth llefaru, Blynyddoedd 5 a 6.



Hyfforddwr parti llefaru buddugol Ysgol Brynhyfryd ac enillydd cystadleuaeth llefaru i ddysgwyr, oedd Margaret Lloyd. Mae dwy o Landyrnog yn y parti hefyd, sef Beth ac Anna Jên.

Roedd sawl disgybl arall o'r pentre hefyd yn llwyddiannus yn eu cystadlaethau – llongyfarchiadau i chi i gyd! Yn bendant, mae gan Landyrnog dalent!



Bu pedair o ferched Llandyrnog yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y gystadleuaeth i bartïon cerdd dant aelwydydd, gan ennill y tair brif wobr. O'r chwith: Gwenan; chwaer Gwenan, Nest; Beth; a chwaer Beth, Beca.

Daeth Gwenan hefyd yn ail mewn cystadleuaeth unawd alaw werin ac roedd hi'n aelod o ensemble lleisiol buddugol.

# Newyddion y pentre

Dymuniadau da i Wendy Grey-Lloyd am wellhad buan yn sgil ei llawdriniaeth.

Roedd aelodau eglwys St Tyrnog yn siomedig iawn o glywed am ymddiswyddiad y Parch. Sam Quilty oherwydd afiechyd. Dymuniadau da i Sam a'i gŵr, Don, wrth iddyn nhw ddychwelyd i Northumberland.

Mae gwasanaethau'r eglwys wedi dychwelyd i eglwys St Tyrnog gan fod y tywydd wedi cynhesu ychydig. Roedd gwaith David i ofalu bod yr eglwys yn barod wedi gwneud argraff fawr ar bawb. Diolch, David.

Croeso i Ryan Dykes a Bethany Roscoe sydd wedi dod i fyw i Maes Erw Isaf. Gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Llongyfarchiadau i Mari Williams, Maes Tyrnog, ac Elin Wyn Davies, Hafod y Bryn gynt, ar gwblhau marathon Sheultra marathon ar benrhyn Llŷn – 50 cilometr, (neu 30 milltir i'r rhai hŷn!).




*Elin Wyn (ar y chwith) a'i ffrind, Manon, a orffennodd y marathon gyda'i gilydd*

# Pêl-droed yr haf

(Diolch i'r wefan am y manylion)
Llandyrnog a Llanrhaeadr yw'r unig ddau glwb sy'n dal i fod heddiw, o'r timau a sefydlodd Cynghrair yr Haf yn 1926. Yr adeg honno byddai'r cyfarfodydd yn digwydd yn yr Ystafelloedd Coco.

Llandyrnog yw'r clwb mwyaf llwyddiannus o bell yn hanes y gynghrair. Dechreuodd y llwyddiant yn y 1950 ac roedd y clwb yn arbennig o lwyddiannus ddiwedd yr 1970au ac yn yr 1980au.

Un o brif reolau'r Gynghrair sy'n ei gwneud yn wahanol i'r rhan fwyaf o gynghreiriau pêl-droed eraill yw bod yn rhaid i chwaraewyr fyw o fewn ffin benodol ar gyfer y clwb hwnnw. Mae cynghreiriau haf eraill wedi dod ac wedi mynd, ond doedd ganddyn nhw mo'r rheol honno. Rydyn ni'n credu bod Cynghrair Llandyrnog yn dal i fodoli oherwydd y rheol honno, er bod ambell bentre wedi gorfod cyfuno timau (ac felly eu dalgylch) i ddal i fynd.

Mae tymor y gynghrair yn dechrau ym mis Ebrill ac yn parhau tan ganol mis Gorffennaf.

GEMAU LLANDYRNOG
(Y gic gyntaf am 7:15 pm)

1 Mehefin ODDI CARTREF v Llangynhafal

4 Mehefin GARTREF v Caerwys

8 Mehefin ODDI CARTREF v Ysgeifiog

11 Mehefin GARTREF v Nantglyn

15 Mehefin ODDI CARTREF v Rhewl

18 Mehefin ODDI CARTREF v Henllan

22 Mehefin ODDI CARTREF v Trefnant

25 Mehefin ODDI CARTREF v Llanrhaeadr

**CYMHORTHFA'R HEDDLU**
**PANED GYDA'R PLISMON**

**Pnawn dydd Gwener, 19 Mehefin, 1 tan 2**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 1af | Grŵp gweu<br>Gild Trefoil | 10am<br>2pm |
| Mer 3ydd | Peintio a phaned<br>Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 12–3pm<br>7pm |
| Llun 8fed | Grŵp gweu | 10am |
| Llun 15fed | Grŵp gweu | 10am |
| Maw 16eg | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Mer 17eg | Tuesday Club | 2pm |
| Llun 22ain | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 24ain | Peintio a phaned | 12–3pm |
| Llun 22ain | Grŵp gweu | 10am |

# Eglwys St Tyrnog

Sylwch fod amseroedd a lleoliad y gwasanaethau wedi newid

| | | |
|---|---|---|
| Sul 7fed | Boreol weddi | **9.30am** |
| Sul 14eg | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre | 3.30pm |
| Sul 21ain | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| Sul 28ain | Cymun bendigaid | **9.30am** |

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 07/06 | 5pm | Parch. Robert Parry |
| 14/06 | 11am | Parch. Andras Iago |
| 21/06 | 9.45 | Parch. Ifor ap Gwilym |
| 28/06 | i'w gadarnhau | Gwasanaeth teulu |

***Capel y Dyffryn***
Bore coffi
Dydd Sadwrn, 13 Mehefin
10 – 11.15 yn Neuadd y pentre
Y stondinau arferol, raffl – croeso i bawb

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun 1af | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 3ydd | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 6ed | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 8fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 9fed | Pwyllgor y clwb merlota | 7–9pm |
| Mer 10fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 11eg | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Sad 13eg | Bore coffi – Capel y Dyffryn | 10–11.30am |
| Sul 14eg | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 15fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 17eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 20fed | Parti preifat | 12–4pm |
| Llun 22ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 24ain | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Llun 29ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 30ain | Clwb seryddiaeth | 7–9pm |

I logi'r **Ystafelloedd Coco** cysylltwch â Carolyn Langford-Jones: 01824 790122 neu ar e-bost: cocoaroomsbookings@gmail.com
I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

# Wythnos Genedlaethol y Beic

Mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n gallu cofio cael eu beic cyntaf fel plentyn ifanc – y teimlad simsan hwnnw wrth i chi drio peidio â woblo a phedalu ar yr un pryd, a'r llawenydd llwyr wrth lwyddo i gyfuno'r ddau!

Yn fy mhlentyndod a fy arddegau, bues i'n byw ym Mhrion. Un Nadolig, fe ges i fy meic 'go iawn' cyntaf – beic rasio pum gêr. Dyma ddechrau go iawn fy mherthynas â beiciau. Cefais annibyniaeth a rhyddid i fynd i lawr i'r dre ar fy nhelerau fy hun, i bwll nofio Bron Dyffryn, i weld ffrindiau, mynd i'r Cadetiaid Awyr a chlybiau eraill. Roeddwn wrth fy modd yn gwario fy arian poced ar bethau ar gyfer fy mhrif ddiléit a dysgu llawer am gynnal a chadw, trwsio tyllau yn y teiars, a.a.

Un atgof pwysig yw gwylio'r Milk Race yn dod drwy Ddinbych a gweld y beiciau'n gwibio ar hyd Ffordd Rhuthun i ennill pwyntiau. Roedd y cyffro'n wefreiddiol ac roeddwn i'n meddwl tybed a fyddwn i'n gallu gwneud rhywbeth fel'na.

Ond yn fuan daeth rhywbeth arall i dynnu fy sylw – car! Fel y gwnaeth y rhan fwyaf ohonon ni, cafodd y beic ei adael yn sied, bron iawn wedi'i anghofio.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, wrth i fi lenwi fy amser hamdden gyda ffitrwydd a chwaraeon, chwiliais am fy meic unwaith eto. Y tro yma, roedd yn fwy na ffordd o gyrraedd mannau penodol. Roedd y ffasiwn yn newid, ac roedd beiciau mynydd yn dechrau dod yn boblogaidd. Felly, cefais gyfle i fynd i leoedd anial a daeth y cyffro roeddwn i wedi'i brofi fel plentyn yn ôl. Cyn bo hir, dechreuais rasio, a theithio i sawl digwyddiad yng Ngogledd Lloegr.

Dechreuais fynd ar fy meic i'r gwaith. Roedd hyn yn cyfuno hyfforddi a theithio heb ychwanegu llawer o amser at fy niwrnod prysur. Hyfforddi 'am ddim', awyr iach a'r lles meddyliol a chorfforol, a ffordd wych i ddatrys unrhyw straen a gododd yn ystod y diwrnod. Mi wnes i hyn am 33 o flynyddoedd nes i mi ymddeol.

Mewn rasys beiciau mynydd, sylwais fod y rhan fwyaf o'r rhai oedd ar y blaen hefyd yn reidio beiciau ffordd, felly roedden nhw yn fwy ffit o lawer. Gan fy mod yn mynd i fy ngwaith ar y ffordd, yn fuan iawn sylweddolais ei bod yn well gen i reidio beic ar ffyrdd. Yn sgil hyn prynais ambell beth newydd (neu ddau!) ac ymunais â Chlwb Seiclo'r Rhyl a chystadlu mewn rasys ffordd am dipyn o flynyddoedd.

Yn gyffredinol, mae pobl yn meddwl ei bod yn rhaid i chi gael yr 'holl offer' – lycra, helmedau a.a. ac fe allai hyn wneud i bobl fod yn gyndyn o seiclo. Mewn gwirionedd, gallwch ddefnyddio beic fel modd o deithio. Does dim ond angen edrych ar Ddenmarc a'r Iseldiroedd am enghreifftiau gwych o seiclo er mwyn teithio.

Wrth i Wythnos y Beic nesáu (8–14 Mehefin), mae'n adeg ddelfrydol i weld a fyddai reidio beic yn gallu gwella bywyd. Seiclo yn lle gyrru'r car ar deithiau byr, a mwynhau'r lles corfforol a meddyliol. Heddiw mae e-feiciau ar gael i ysbrydoli'r rheini sy'n poeni am fynd i fyny gelltydd, neu'r rheini nad ydyn nhw am gyrraedd eu gwaith yn chwysu. Mwynhewch y pedlo, beth bynnag byddwch chi'n ei ddewis!

*Steve Juckes-Hughes*




*Steve ger Llyn Garda*

# y Siop



Ydych chi wedi sylwi ar newidiadau ar ystafell gyfarfod y siop?! Yn dilyn cais llwyddiannus am grant y celfyddydau rydyn ni'n cydweithio'n agos â thri artist lleol. Cawson ni ddechrau ardderchog gyda'r artist cyntaf, Emma Holmes, yn rhannu ei phroses o dynnu llun a braslunio ag ymwelwyr â'r siop, yn ogystal â gyda staff a disgyblion Ysgol Bryn Clwyd. Mae fideo a delweddau o brosiectau'r artist yn cael eu dangos ar hyn o bryd ar y sgrin newydd yn yr ystafell gyfarfod, ac mae ardal y bwrdd du ar gael i bobl ymarfer eu doniau braslunio. Galwch heibio i weld!

Bydd yr ail artist yn dod i Ysgol Bryn Clwyd ddydd Mercher, 24 Mehefin, ac mae gwahoddiad i bawb i ymuno â Verity Pulford, ar gyfer sesiwn gwneud clai porslen a thynnu llun. Bydd rhagor o fanylion ar y poster yn y siop.

Mae'r siop yn hynod o ddiolchgar i Dirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy am y grant hael tuag at y paneli solar newydd a'r batri. Mae'r rhain eisoes yn gostwng ein bil trydan, ac yn gwneud ni'n siop fwy gwyrdd, yn fwy cynaliadwy.

Gyda'r haf yn nesáu, rydyn ni wedi dechrau ystyried y lle y tu allan i'r siop. Mae'r ardd gefn yn y cysgod ac yn em gudd yn y pentre. Cyn bo hir bydd seddi yn yr ardd ar gyfer y caffi. Rydyn ni wedi dechrau prynu dodrefn i'r ardd ac wedi dechrau troi'r ale wrth ochr y siop yn ardal fwy deniadol.

*Rhian Pierce*

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Dathlu'r Jiwbilî



Dyma un o gymeriadau Llandyrnog, Emlyn Bach, yn dathlu Jiwbilî arian y Frenhines yn 1977. Weithiau byddai trelar yn sownd yn y beic, wedi'i addurno â fflagiau a phethau roedd wedi cael hyd iddyn nhw. Byddai'n cyfarch pobl â "Are you under pressures, dears?"

# Car cyntaf ein teulu – atgofion am Reliant Regal

*gan Gwen Butler*

Wrth edrych ar y llun o Emlyn Bach a'r hen geir y tu ôl iddo, fe ddechreuais i hel atgofion. Mae'r erthygl ganlynol yn wahanol iawn i storïau Bryn am geir cyflym, ond dyma benderfynu rhannu fy atgofion am ein car cyntaf ni fel teulu:

Dyn motobeics oedd Dad yn y bôn, yn reidio popeth o sgwter Vespa i BSA 500. Ond gyda'r teulu'n tyfu, roedd angen ailystyried. Pan oeddwn i'n fach ac yn byw yn Essex, doedd teithio o gwmpas y dre ddim yn broblem. Yn 6 oed, byddwn i'n mynd i'r ysgol – ar fy mhen fy hun, cofiwch – ar fws a oedd y tu allan i'n tŷ ni (ceiniog am docyn) neu'n teithio ar sedd dartan werdd oedd gan fy mam ar gefn ei beic. Meddyliodd Dad am gael seidcar i'w fotobeic, ond chafodd o erioed ei osod, a'i ddiwedd oedd bod yn lloches yn yr ardd gefn i bryfed cop digartref.



Ar ôl i ni symud yn ôl i Ogledd Cymru yn 1966, mi fentrodd a phrynu Reliant Regal (fel car Del-boy). Yr adeg honno roeddech chi'n cael gyrru car tair olwyn ar drwydded motobeic. Wrth ei brynu'n syth o'r ffatri (dwi'n cofio mynd i'r ffatri yn Tamworth i'w nôl o) roeddech chi'n cael gostyngiad yn ei bris.

Rhy liw fel madarch oedd i'r car, ac er bod seddi yn y tu ôl, doedd dim ffenestri yno. Felly roedd y cerbyd yn fan, a'r dreth o ganlyniad yn rhatach, mae'n debyg.

Wrth gwrs, fy mrawd bach a fi oedd yn gorfod mynd i'r tu ôl bob amser, gan ein bod yn gorfod dringo dros y seddi. Dim ond cefn pen Dad roeddwn i'n gallu gweld o'r sedd ôl ac mae'n syndod nad oeddwn i'n sâl wrth deithio!

Dychwelyd i Southend on Sea oedd ein gwyliau ni, i weld ein ffrindiau a'n perthnasau yno. Byddai'r daith yn dechrau o Ogledd Cymru tua 10 o'r gloch y nos, ac yn cyrraedd Essex gyda'r wawr. Mae gen i atgofion eitha braf o'r teithiau hynny drwy'r nos. Roedd hyn adeg canol yr 1960au ac roedd y ffyrdd yn dawel. Roedden ni'n mynd drwy ganol y trefi ar hyd y ffordd (doedd dim ffyrdd osgoi yr adeg honno) – yr Amwythig, Banbury, Aylesbury, a "Gerrards Cross", enw a arhosodd yn fy nghof am ryw reswm. Yna cyrraedd y North Circular Road. Roedd mynd o gwmpas cyrion Llundain yn oriau mân y bore yn fwy o hwyl na theithio ar yr M25 heddi.



Pan fydden ni'n cyrraedd Ilford a'r nionyn-a'i-ben-i-lawr (doedd gen i ddim syniad beth oedd hwn, ond roeddwn i bob amser yn trio cael cip arno heibio i ben Dad), roedden ni ar y Southend Arterial Road a bron iawn yno. A'r wawr bron â thorri erbyn hynny, y man olaf i aros oedd Ted's Transport Cafe am fygiaid mawr o de a brechdan wy wedi ffrio. (Wrth edrych yn gyflym ar Google, dwi wedi

# Reliant Regal: parhad

dysgu mai tŵr dŵr oedd y nionyn-a'i-ben-i-lawr, ac yn Basildon mae o, ddim yn Ilford! Roedden i'n meddwl erioed ei fod ynghlwm â'r ffatri ffilmiau camera yn Ilford – 60 mlynedd yn ddiweddarach, dwi wedi sylweddoli fy mod i'n anghywir!)

Roedd gan y Reliant Regal gorff gwydr ffibr a oedd yn cracio'n hawdd petaech chi'n taro rhywbeth, ond roeddech chi'n gallu cael stwff i'w drwsio a oedd ag aroglau glud *epoxy* arno. Roedd y car ei hun mor ysgafn, roeddwn i'n casáu eistedd ynddo ar ochr y ffordd, oherwydd byddai'n siglo petai rhywbeth yn mynd heibio'n gyflym. Roedd yn simsan iawn ar ei dair olwyn, yn troi drosodd yn rhwydd petaech chi'n mynd o gwmpas cylchfan neu gornel yn rhy gyflym (ond yn ddigon ysgafn i'w wthio'n ôl ar i fyny eto). Ddigwyddodd hyn i ni erioed gan nad oedd Dad yn gyrru'n gyflym iawn, ond dwi'n siŵr na fyddai'r car byth yn pasio profion damweiniau iechyd a diogelwch heddiw.

Doeddwn i ddim yn hoffi'r car ar y pryd, ond wrth edrych yn ôl, roedd yn cynrychioli rhyddid i'r teulu ac yn bendant yn dwyn atgofion am ddyddiau hapus iawn.


**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh LI16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks


# Grŵp Cyfeillgarwch

Cafodd y grŵp sgwrs ddiddorol gan Tracey o'r grŵp achub draenogod a roddodd wybodaeth am eu gwaith a sut mae gwneud ein gerddi'n addas i ddraenogod.

Hefyd fe fuon ni am dro i Gonwy.



*Rhai o aelodau'r grŵp ym Mhlas Mawr, Conwy*

Ym mis Mehefin, Mary Steel fydd ein siaradwraig wadd. Rydyn ni'n mynd i gael diwrnod Ascot i'r merched ac ymuno â thaith ddirgel o Drefnant.




# Rysáit

### *Chelsea buns*

Cynhwysion ar gyfer y cychwyniad:
1 wy mawr
215ml dŵr lled gynnes
25g burum ffres neu 10g burum sych
100g blawd gwneud bara
15g siwgr

Cynhwysion ar gyfer y toes:
400g blawd gwneud bara
¼ llwy de halen
75g siwgr
50g menyn meddal

Menyn wedi'i doddi, sinamon, syltanas, siwgr bras – *granulated*

Cymysgwch gynhwysion y cychwyniad i gyd gyda'i gilydd i greu cytew, gorchuddiwch y bowlen a gadael iddi am ryw 15 munud. Rhowch y blawd a'r halen mewn powlen gyffredin neu bowlen cymysgydd trydan, gwnewch dwll yn y canol a rhowch y siwgr yn y twll. Tywalltwch y cynhwysion eplesu dros y siwgr a'u cymysgu'n egnïol (neu defnyddiwch fachyn toes y cymysgydd). Ychwanegwch y menyn meddal a daliwch ati i gymysgu nes bydd y cyfan wedi'i gymysgu'n dda. Does dim posib gor-wneud hyn. Dylai'r toes fod yn llyfn iawn. Rhowch haenen lynu dros y cymysgedd a'i adael am ryw awr mewn ystafell gynnes i godi.
Paratowch dun pobi hirsgwar, 36cm x 27cm ac ochrau 50cm o uchder, yn ddelfrydol, ond dydy hyn ddim yn hanfodol. Irwch y tun yn dda – po fwyaf o fenyn fydd ar y tun, y gorau bydd blas y byns.
Rhowch y toes ar arwyneb glân a'i rolio a'i siapio gyda'ch dwylo nes ei fod yn mesur 23cm x 30cm. Taenwch y toes â'r menyn wedi'i doddi drosto, gan adael un ymyl byr heb fenyn. Sgeintiwch sinamon, y siwgr a'r syltanas drosto. Rholiwch y toes yn dynn, o'r ymyl byr â menyn arno, gan ymestyn y toes ychydig wrth i chi wneud. Seliwch y rholyn drwy wasgu ar y stribyn olaf – yr un heb fenyn arno. Defnyddiwch gyllell finiog i dorri'r rholyn yn 12 sleisen drwchus a rhowch nhw yn y tun. Ni ddylai'r byns gyffwrdd â'i gilydd, byddan nhw'n mynd yn fwy. Gorchuddiwch y tun a'i adael mewn man cynnes er mwyn i'r toes godi.
Pobwch y byns mewn popty 220 °C, nwy marc 7, am ryw 15 munud. Pan fyddan nhw'n barod, sgeintiwch siwgr drostyn nhw, neu eu taenu ag eisin *glacé* tenau. Ar eu gorau pan maen nhw'n ffres!

*Roger Warner*

## Tai Sir Ddinbych

Buddsoddi yn ein cymunedau

**Diwrnodau tasgau gardd gymunedol Llandyrnog**

Dydd Mercher, 10 Mehefin, 3–5pm
Dydd Mercher, 24 Mehefin, 3–5pm

A hoffech chi ddysgu sut i dyfu ffrwythau a llysiau, neu efallai ddim ond dod i adnabod eich cymdogion?
Mae gardd gymunedol Llandyrnog yn bwriadu ehangu ei chymuned. P'un ai a ydych yn arddwr brwd ai peidio, mae croeso i bawb ymuno â ni am brynhawn o rannu sgiliau a sgwrsio, wrth i ni geisio datblygu'r gerddi a'r cyfleoedd maen nhw'n gallu cynnig i'r pentre. Mae cyfleoedd ar y diwrnod yn cynnwys:

- Dysgu am y mannau tyfu a sut y gallwch gymryd rhan yn y tyfu.
- Cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am arddio i'r tîm, a rhannu eich storïau a'ch sgiliau.
- Helpu i wneud bin compost newydd.
- Helpu i blannu gwely llysiau newydd i bawb yn y gymuned ei fwynhau.

Mae'r digwyddiad yma'n agored i bawb, yn addas i deuluoedd a bydd yn darparu hyfforddiant, diod boeth a'r holl offer.

**Dewch aton ni i'r safle bysiau gyferbyn â Maes Llan, Llandyrnog, LL16 4HE**

**Y Tîm Gwydnwch Cymunedol**
**Gwasanaeth Tai a Chymunedau**

# Hanesion Hazel

Rydyn ni'n mynd ar ambell daith ddydd ar ôl dydd, drwy gydol ein bywydau, p'un ai ar y bws ysgol, teithio i'r gwaith, neu wrth ymweld â theulu. Dwi wedi bod yn teithio o Landyrnog o Ddinbych ar Ffordd yr Eglwys Wen ers i mi fod yn blentyn, ond a ydych chi erioed wedi edrych ar beth sydd o'ch cwmpas chi, yn lle rhuthro?

Yn gynnar yn y bore sydd orau pan mae'r tarth dros yr afon a'r crychydd yn chwilio am bysgodyn i'w frecwast. Mae'n dechrau yn y gwanwyn gyda'r gwartheg yn dychwelyd, y caeau'n cael eu troi a'u hadu. Cewch weld gwyddau Canada a'r gwyddau gwyllt yn bwydo. Maen nhw'n pori glaswellt byr, meillion, dant y llew, planhigion dŵr, a chnydau amaethyddol, yn anffodus. Drwy'r haf mae'r lliwiau'n newid o liwiau gwyrdd ir i liwiau melyn a brown. Erbyn mis Hydref bydd adar yn dod o ardaloedd yr Arctig i ddianc rhag yr oerfel. Mae'r prif rywogaethau yn cynnwys gwyddau troedbinc a gwyddau duon. Mae'r adar hyn, sy'n bridio yn yr Arctig, yn chwilio am draethellau lleidiog a gwlypdiroedd â thywydd mwy mwyn ar arfordir Cymru.

Mae nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffordd wedi cynyddu'n aruthrol ers yr 1970au. Ydych chi'n cofio'r tanceri llaeth a oedd yn cludo cynhyrchion o'r hufenfa nes i gwmni Arla ddod â chynhyrchu caws yno i ben yn 2018? Cafodd y ffatri ei sefydlu'n wreiddiol yn yr 1920au. Wrth chwilio ar Google, cewch wybod bod 'ei wreiddiau cynnar yn deillio o ffermwyr lleol, gan gynnwys Mr Salt o Blas Ashpool a'r Cyrnol Vosper o Blas Coch, a ddechreuodd fusnes gwneud caws tua 1916/17.' Os ydych yn gwybod rhagor o ffeithiau diddorol am yr hufenfa, rhowch wybod i ni. (Mae gan lyfr Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan, *Trem yn Ôl*, adran ardderchog ar yr Hufenfa, ond byddai atgofion personol yn ddiddorol iawn. Gol.)



Un o fy atgofion oedd y bygythiad parhaol o gyfarfod ag un o'r tanceri llaeth anferth ar 'y bont las' – does dim digon o le i ddau fynd heibio'i gilydd arni, nag oes?
Byddai'r tanceri'n teithio ddydd a nos. Un hydref, bues i'n helpu ffermwr i symud ei wartheg o'r caeau isel oherwydd rhybudd am lifogydd. Ar noson hir a gwlyb, roeddwn i'n aros i dractor a threlar ddod i nôl gwartheg, llwytho ychydig ar y tro, a mynd â nhw i dir uwch. Wrth gwrs, roedd yn rhaid i fi aros ar fy mhen fy hun i ddisgwyl i'r tractor ddod yn ôl. Roedd hi'n noson annaearol, gyda'r dŵr o fy nghwmpas yn sblasio wrth i'r llifogydd godi, dwndwr y tanceri llaeth yn mynd heibio ar y ffordd, ac wedyn y llonyddwch. Erbyn y wawr, o'r diwedd roedd y gwartheg i gyd yn ddiogel ac fe es i adre i gael bath poeth a brechdan bacwn haeddiannol.

Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol ar gaeau Kilford yn uchafbwynt yn 2001 ac eto yn 2013. Fe gymerodd hi wythnosau i baratoi'r maes a chodi'r pafiliwn, canolbwynt y maes. Yr adeg honno roedd y pafiliwn yn binc ac fe ddaeth yn olygfa gyfarwydd ar y Maes am dros ddegawd. Daeth pafiliwn newydd o'r enw "Evolution" i gymryd lle'r un pinc yn 2016, i'w gwneud hi'n haws i bobl weld y llwyfan a lleihau sŵn o'r tu allan.

Dwi'n siŵr ein bod ni i gyd yn teithio ar hyd y ffordd hon, a phan mae hi'n dawel, heb geir eraill, cymerwch ennyd i edrych y tu hwnt i'r tarmac a mwynhewch eich taith.

**Hazel**

# Y Gymdeithas Seryddiaeth



Roedd hi'n braf gweld rhagor o wynebau newydd yng nghyfarfod mis Ebrill. Roedd ein heitem arbennig ar Artemis yn cynnwys ein pedwar astronot (gweler y llun uchod) yn dangos go iawn faint o le oedd gan yr astronots i fyw ynddo ar y capsiwl Orion. Hefyd gwelson ni'r lansiad a'r daith y buon nhw arni. Fel arfer, roedd hyn yn hwyliog iawn ac yn addysgiadol hefyd.




Gan barhau â'n thema ar ferched arloesol mewn seryddiaeth, fe gawsom ni sgwrs am Dorothea Vaughan (1910–2008), a fu'n arloesi mewn mathemateg a chyfrifiadureg, ac a dorrodd rhwystrau hil a rhyw, gan adael effaith barhaol ar feysydd NASA a STEM. Roedd hi'n allweddol yn y symud o gyfrifiaduro dynol i raglenni electronig, gan ddod i arbenigo ar raglenni FORTRAN. Roedd hi'n un o'r 'Bobl gudd' a fu'n helpu i lansio lloerenni i'r gofod.

Roedd 'Ein hawyr y mis hwn' yn cynnwys y cytser Leo. Cafwyd rhagor o sôn am alaethau ac fe lwyddon ni hefyd i gael ein telesgopau allan i weld golygfeydd gwych o leuad wedi'i goleuo 93 y cant, a phlanedau Gwener ac Iau. Noson brysur iawn.

Beth sydd i'w weld ym mis Mehefin? Gallwch weld cymylau sy'n goleuo yn y nos – *noctilucent* – drwy gydol misoedd Mehefin a Gorffennaf. Edrychwch tuag at orwel y gogledd ar ôl machlud haul neu cyn y wawr i weld y cymylau prin hyn. Mae'r blaned Mercher ar ei gorau fin nos yn ystod hanner cyntaf mis Mehefin, ac mae'r blaned Gwener yn dechrau dod i'r golwg eto yn awyr y bore o ganol y mis. Gyda'r nosweithiau'n byrhau, yr adeg orau i weld y Llwybr Llaethog yw yn ystod oriau'r gwyll, ac mae'n codi'n gynharach wrth i'r mis mynd yn ei flaen.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn ystafell isaf neuadd y pentre, nos Fawrth, 30 Mehefin.



# Cerddorion talentog

Mae Lloyd Powell yn 15 oed, yn ddisgybl yn Ysgol Brynhyfryd ac yn paratoi ar gyfer ei arholiad gradd 7 mewn offerynnau taro, ar ôl cael rhagoriaeth yn ei arholiad Gradd 6.



Mae Lloyd yn chwarae'r drymiau gyda band ieuenctid gorau Cymru – Seindorf Biwmaris. Weithiau mae Lloyd yn teithio ddwywaith yr wythnos i Fiwmaris i ymarfer gyda'r band. Ym mis Ebrill, bu'r band yn cystadlu yn Linz, Awstria ym mhencampwriaethau bandiau pres ieuenctid Ewrop, gan chwarae rhaglen heriol 20 munud o hyd. Daeth y band yn chweched yn Ewrop – un o'r bandiau ieuengaf i gystadlu, tipyn o gamp! Gobaith Lloyd yw dilyn gyrfa mewn cerddoriaeth a chyn bo hir bydd yn mynd ar gwrs hyfforddi band y Môr-filwyr Brenhinol i weld a ydy hyn yn fodd iddo barhau i ddrymio'n broffesiynol ar ôl gadael yr ysgol.




*Mason yn Linz o flaen caffi addas iawn i offerynwyr taro!*

Mae Mason, brawd Lloyd yn 16 oed, a'i ffrind Tyler yn 16 hefyd. Gyda Lloyd, buon nhw'n cystadlu yn adran offer taro Gŵyl Gerdd Caer, ac ennill – da iawn!



Mae Mason and Tyler hefyd yn aelodau o'r band Ambrose, a fu'n chwarae yn ystod ymweliad diweddar y Brenin ag eglwys gadeiriol Llanelwy.



*Lloyd a Mason â'u golwg ar y car brenhinol*



*Cafodd eu mam, Heather, pennaeth gwasanaeth Cerdd Cydweithredol Dinbych, gyfarfod â'r brenin hefyd.*



Diolch i'r Cynghorwyr Cymuned Elaine Williams a Gwen Butler, ac i'r clerc, Bryn Davies, am harddu'r gylchfan gyda blodau ar gyfer yr haf. Diolch hefyd i Graham Pickles, Green Fingers, a Haydn Roberts am gyflenwi'r blodau ac am y rhodd hael anhysbys tuag at brynu'r blodau.

**Cyngor Sir Ddinbych**



**Merfyn Parry**
Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# MHC

Yn Mental Health Care UK (MHC), mae darparu gofal ystyrlon, personol, wrth wraidd ein holl waith. Mae ymrwymiad a chydymdeimlad ein staff eithriadol yn ganolog i hyn, staff sy'n cefnogi ein trigolion bob dydd.

I gydnabod eu cyfraniad amhrisiadwy, trefnodd Highfield Park Wythnos Gwerthfawrogi Staff, a oedd yn canolbwyntio ar les, creadigrwydd, a chydweithio fel tîm. Trefnodd y tîm rheoli raglen amrywiol o weithgareddau i roi cyfle i'r staff ymlacio, cymdeithasu a mwynhau.

Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys sesiynau peintio darluniau ar gynfas, rhoi cyfle i'r staff weld pa mor greadigol ydyn nhw, a sesiynau tylino'r corff gan ein tylinwraig breswyl. Cafwyd cinio a oedd yn cynnwys amrywiaeth helaeth o seigiau blasus, yn dangos cefndiroedd ethnig amrywiol tîm Highfield Park.

Cafwyd llawer o chwerthin yn y gweithgareddau egnïol y tu allan, gyda chystadleuaeth tynnu rhaff a gêm fywiog o rownderi yn yr heulwen yn eu plith.

Roedd ymateb y staff yn gadarnhaol iawn, a sawl un yn ddiolchgar am gael eu cydnabod mewn ffyrdd mor ystyrlon. Yn MHC rydyn ni'n credu'n gryf mai ein staff yw sail ein llwyddiant, ac roedd yr wythnos hon yn gyfle i ddiolch iddyn nhw am eu holl waith.

**Diolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi er budd Beiciau Gwaed Cymru, gan godi £500 tuag at yr achos teilwng hwn.**

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

# Y Clwb Garddio

Cafodd Jozsef Vass groeso i'n cyfarfod ym mis Mai i sôn am ardd feicro ReSource. Tywysodd ni i'r dyfodol i weld sut gall garddio dan do roi llysiau gwyrdd i ni gydol y flwyddyn. Esboniodd sut mae planhigion yn gweithredu a beth gallwn ni ei ddarparu i wneud iddyn nhw ffynnu dan do. Rhoddodd wybodaeth i ni am sut mae'r system silffoedd hydroponeg yn addas i'n cartrefi ac yn gallu darparu perlysiau a llysiau salad drwy gydol y flwyddyn. O'r letysen Lollo Rossa gyfarwydd, i fresych deiliog – *kale*, yn ogystal â llysiau gwyrdd micro fel rhuddygl – *radish*, egin pys a coriander. Mae'r rhain yn cynhyrchu egin ifanc, tyner o lysiau mae'n bosib eu cynaeafu 1–3 wythnos ar ôl iddyn nhw flaguro.



Roedd ein bore coffi a'n sêl blanhigion flynyddol yn llwyddiannus iawn a chododd £557.39. Diolch i bawb am ein cefnogi a byddwn yn cyhoeddi ein rhaglen ar gyfer 2027 cyn bo hir.

Ym mis Mehefin byddwn yn ymweld â gardd Mr Tony Burrows yng Nghastanwyddan, Fforddlas, felly fyddwn ni ddim yn cyfarfod yn neuadd y pentref. Bydd ein prif raglen yn dechrau eto ar 8 Medi gyda Dawn Gough yn sôn am The Crafty Gardener.

Os hoffech chi ymuno â'r clwb, dewch aton ni neu anfonwch e-bost at LlandyrnogGardeners@outlook.com.

# Undeb y Mamau

Ein siaradwraig yn ein cyfarfod fis Mai oedd Gaynor Kumria, a ddaeth i sôn wrthym am y Gofod Cynnes yn Henllan. Dechreuodd popeth yn ystod Covid, efo bwrdd y tu allan lle roedd pobl yn gallu dod at ei gilydd am goffi a chacen. Wedyn symudodd i mewn a thyfu nes bod y tîm erbyn hyn yn darparu pryd dau gwrs i hyd at 70 o bobl bob dydd Iau, ac mae prydau'n cael eu dosbarthu hefyd i'r rhai na allant adael eu cartrefi. Mae croeso i bawb a does dim tâl am y cinio.

Mae'r bwyd yn cael ei ddarparu gan archfarchnadoedd, a fyddai fel arall yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Felly, mae'r prosiect yn dod â phobl at ei gilydd am gwmnïaeth a phryd o fwyd ac yn atal llawer iawn o wastraff bwyd. Mae unrhyw fwyd dros ben yn cael ei gynnig i'r gymuned, sy'n gallu dod i'w gasglu. Mae'n fenter anhygoel sydd wedi ennill sawl gwobr ac wedi denu arian am ddwy flynedd. Roeddem yn llawn edmygedd o'r tîm ac yn methu peidio â meddwl am bilio tatws i 70 o bobl!


GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae nifer o ymwelwyr wedi bod i'r ysgol yn ystod yr hanner tymor yma. Mae Dosbarth Hedfan yn ymwneud â phroject celf yn siop y pentre a chanolfan grefftau Rhuthun. Fel rhan o'r project, fe wnaethon nhw fwynhau eu hymweliad cyntaf gan yr artist, Emma, a ddysgodd sgiliau braslunio iddyn nhw.

Bydd ein noson mabolgampau a ffair yr ysgol yn gynharach nag arfer eleni, y dyddiad i'w gadarnhau. Bydd y rasys yn dechrau am 5 o'r gloch a bydd y ffair yn dilyn. Croeso cynnes iawn i bawb yn y pentre.



PC Craig yw ein swyddog heddlu newydd ac mae o wedi rhoi ei amser i'r ddau ddosbarth.



Mae disgyblion yn Dosbarth Tyfu wedi dod yn eu blaenau mor dda gyda'u sgiliau darllen, maen nhw wedi cael tocynnau ar gyfer y peiriant gwerthu llyfrau – da iawn chi.



Daeth Cerdd Cydweithredol Dinbych i wneud gweithdy drymiau samba gyda Dosbarth Hedfan.

# Gair gan yr offeiriad


Ar draws y caeau ac ar hyd y lonydd o gwmpas Llandyrnog a Llangwyfan, mae hen droedio ar y llwybrau yr adeg hon o'r flwyddyn. Yma, ar lwybr Clawdd Offa, mae camre yn dweud stori – straeon y rheini sy'n cerdded yn bwrpasol, gyda chwestiynau, gyda gobaith. Mae'r nosweithiau'n hirach, yr awel yn fwynach, ac rydyn ni'n oedi ychydig yn rhagor. Mae'r boreau cynnar yn dod â chôr y wig, rhythm tawel esgidiau ar y pridd, gwres tyner yr haul ar ein hwynebau. Mae cerdded yn gallu gwneud i ni arafu ddigon i sylwi ar beth sy'n digwydd o'n cwmpas ni – ac efallai beth sy'n cyniwair ynom ni hefyd.

I sawl un, mae sain yn cyd-fynd â cherdded. Cerddoriaeth yn ein clustiau, rhywbeth cyfarwydd sydd â'r un curiad â'n camau. Gall godi'n calonnau, pwyllo ein meddyliau, a rhoi lle i bopeth rydyn ni'n ei gario. Rydyn ni'n gwybod, efallai'n fwy pendant rŵan, bod cerddoriaeth yn llacio straen, yn gwella'n lles, ac yn ein cysylltu â rhywbeth y tu hwnt i'r presennol.

Ac eto, mae llwybr Clawdd Offa yn cynnig rhywbeth gwahanol. Lle ar gyfer tawelwch. Eiliadau heb neb yn tarfu arnoch. Cyfle i wrando, a dim byd arall.

Mewn bydd sydd prin yn aros yn llonydd, gall distawrwydd deimlo'n anghyfarwydd. Mae'n hawdd llenwi pob cam – gyda cherddoriaeth, gyda geiriau, gyda rhywbeth i dynnu ein sylw. Ond mae cerdded heb ddim byd i dynnu'n sylw yn beth llesol iawn . Clywed y gwynt, clywed sŵn yr adar, curiad cyson ein camre. Gadael i'n meddyliau lonydd, yn hytrach na'u brysio.

Mae bywyd Cristion yn aml wedi'i ddisgrifio fel taith, ac mae pererindod yn un o'r ffyrdd hynaf o fynegi hyn. Dim byd crand na chymhleth, ond peth syml: pobl yn cerdded, yn ystyried, yn gweddïo, weithiau gyda'i gilydd, weithiau ar eu pen eu hunain. Ac yn aml, nid ar ddechrau nac ar ddiwedd y daith mae rhywbeth yn newid – ennyd o eglurder, ymdeimlad o heddwch, ymwybyddiaeth o'r newydd o bresenoldeb Duw gyda ni.




Yma yn eglwysi St Cwyfan a St Tyrnog, cawn ein hatgoffa ein bod yn rhan o'r daith ehangach honno o ffydd. P'un ai'n cerdded ar hyd llwybr Clawdd Offa, neu ar lwybr cyfarwydd, mae gwahoddiad ym mhob cam: sylwch, gwrandewch, a diolchwch.

Yn yr haf, bydd adegau i ddod at eich gilydd, i ddathlu, ac i rannu yn eich cymdeithas. Ond gyda'r adegau hyn o fod gyda'n gilydd, mae galwad mwy tawel yn bod – cerdded, bod yn bresennol, a derbyn rhoddion y greadigaeth sydd o'n cwmpas ni.

Pob bendith,

Y Parch. Rebecca

TY CEFFYL BACH
Facebook 07768 331488 Instagram
www.tyceffylbach.co.uk
info@tyceffylbach.co.uk
4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**



## Gild Trefoil

Ym mis Mai, aeth yr aelodau i Dŷ Clwyd, Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Geidiau Clwyd, i weld yr ardd sydd newydd ei phlannu. Mae'r ardd yn un ecogyfeillgar sy'n cynnwys pwll dŵr, planhigion, coeden afal o Sir Fôn a choeden eirin Dinbych. Roedd hyn yn bosibl gyda grant. Darparodd y cadeirydd de pnawn.

Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn ymweld â lloches i asynnod. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

## Llan Llanast

Yn ein sesiwn mis Mai, buom yn gwrando ar y stori a adroddodd Iesu am yr hedyn mwstard – un bach iawn ond mae'n tyfu'n blanhigyn mawr, a gall yr adar lochesu yn ei ganghennau. Clywsom hefyd am Ddewi Sant a ddywedodd, "Gwnewch y pethau bychain", a buom yn edrych ar sut y gall dim ond un weithred fach o garedigrwydd dyfu a chreu cymuned gyfeillgar a chroesawgar. Gwnaethom oll addo nodi gweithred o garedigrwydd bob dydd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Bydd ein cyfarfod nesaf ddydd Sul 14 Mehefin am 3.30yp yn Neuadd y Pentref, ac mae croeso cynnes i bawb.

# CPD LLANDYRNOG UNITED

## DIWRNOD HWYL I DDATHLU'R 50

Bore dydd Sadwrn, 6 Mehefin am 11 o'r gloch

### Amserlen

09.00 Y gatiau'n agor

10.30 Gorffen cofrestru timau

11.00 Dechrau'r twrnamaint iau

14.30 XI y gorffennol vs XI y presennol

Gemau a bwyd ar gael drwy'r dydd

Mewn cydweithrediad ag

EST. 2025

ALL ELITE SPORTS

PERFORMANCE COACHING

# Diolch

Diolch i bawb a fu'n helpu ac yn cyfrannu at y bore coffi, gan godi £360 tuag at Campfire Cymru. Unwaith eto estynnodd pobl dda Llandyrnog yn ddwfn i'w pocedi a rhoi'n hael.

*Carolyn Langford Jones a'r teulu.*

Ar ôl cwyno ers cymaint o amser am y tyllau yn y ffordd, rhaid diolch i Adran Briffyrdd Sir Ddinbych a'r contractwyr, cwmni Hogan, am safon y gwaith ar "ffordd osgoi Llandyrnog" (o groesffordd Celynog i gylchfan tafarn y Kinmel) – bron cystal ag wyneb ar drafforddd! Roedd hi'n werth cau'r ffordd am ychydig ddyddiau i wneud y gwaith yn iawn.

# The Tuesday Club

Rhian Pierce, ymgynghorydd amaeth gyda'r RSPB oedd y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Mai. Mae niferoedd rhai o adar Cymru sy'n byw ar dir fferm, fel y gornchwiglen, wedi gostwng yn sylweddol yn ddiweddar. Yn draddodiadol, mae'r rhain yn dibynnu ar systemau ffermio sy'n darparu cynefin i nythu, ffynonellau bwyd, a lloches i'r cywion. Gallai deall y ffactorau sy'n arwain at y gostyngiadau hyn, delio â nhw â'u cywiro, helpu i atal hyn yn y dyfodol. Diolchwyd i Rhian am ei sgwrs ddiddorol. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ystafelloedd Coco, bnawn dydd Mercher 17 Mehefin am 2 o'r gloch. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

# TWRNAMAINT IAU

## DIWRNOD HWYL LLANDYRNOG

**Bore dydd Sadwrn, 6 Mehefin am 11 mewn cydweithrediad ag**

ALL ELITE SPORTS
PERFORMANCE COACHING

**Amodau chwarae yn y twrnamaint iau**

**Uchafswm o 8 i bob tim (6 chwaraewr, 2 wrth gefn)**

**Uchafswm oed: 11**

**£20 y tîm i gofrestru**

**I gofrestru tîm iau, cysylltwch ag allelitesportscoaching@gmail.com neu 07717 001576**

**Y timau i gofrestru erbyn 10.30**

# Y Cyngor Cymuned

**Cyfarfod blynyddol y Cyngor Cymuned, 19 Mai 2026**

Bu cyfarfod blynyddol y Cyngor Cymuned ym mis Mai. Etholwyd y Cyngh. Gwen Butler yn gadeirydd, a'r Cyngh. Emyr Morris yn is-gadeirydd.

Yn ei hadroddiad, cyfeiriodd y Cyngh. Butler at lwyddiannau'r flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys offer ychwanegol yng Nghae Nant. Diolchodd i Vicky Owen am ei phenderfyniad i wireddu'r project, i STAND NW am gyngor ymarferol ar y math o offer, am swm cymudedig gan Gyngor Sir Ddinbych (CSDd), ac i Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, y Loteri Genedlaethol, ac MHC am eu grantiau hael. Hefyd bydd mainc a bwrdd picnic hygyrch yn cael eu gosod yno cyn bo hir.

Cyfeiriodd y Cyngh. Butler at y ffaith fod dau aelod wedi ymddiswyddo eleni. Mae'r Cyngor wrthi'n gofyn caniatâd gan GSDd i gyfethol dau gynghorydd newydd.

Trwy'r Cyngh. Borthwick, cafodd y Cyngor Cymuned ddau becyn bioamrywiaeth/ blodau gwyllt. Bu cydweithio â'r ysgol i blannu'r rhain yng Nghae Nant ac ym Mharc Tyn Llan. Gobeithio y bydd y blodau'n hadu eu hunain ac y byddwn yn gweld rhagor o flodau parhaol cynhenid.

Mae Un Llais Cymru wedi mabwysiadu ein hadroddiad bioamrywiaeth. Erbyn hyn mae hyn yn ofyniad statudol a bydd bioamrywiaeth yn cael ei ystyried pan fydd ceisiadau cynllunio'n dod at y cyngor i'w hystyried. Mae ein cynllun busnes hefyd wedi'i fabwysiadu ac yn ganllaw ar gyfer buddsoddiadau.

Ar ôl y cyfarfod blynyddol, cafwyd y cyfarfod misol ac roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys y canlynol:

- ◊ Roedd swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn bresennol a dywedodd mai ychydig iawn o ddigwyddiadau a gafodd eu reportio. Ond roedd yn ymwybodol o fan wen yn yr ardal, wedi'i chofrestru yng Nghanolbarth Lloegr, a oedd wedi'i gweld mewn plwyf cyfagos yn tynnu metel sgrap allan o sgip. Dylai pawb fod ar eu gwyliadwriaeth a reportio unrhyw ddigwyddiadau amheus tebyg ar unwaith i 101, ynghyd â rhif cofrestru'r cerbyd.
- ◊ Penderfynwyd cyfethol dau aelod newydd i'r Cyngor. Bydd yr hysbysiadau cyfethol yn cael eu cyhoeddi a'u harddangos cyn gynted ag y bydd CSDd yn rhoi caniatâd i wneud hyn.
- ◊ Roedd y clerc wedi cytuno ar gynllun talu tair blynedd gydag Archwilio Cymru, ond penderfynwyd talu'r cyfan sy'n ddyledus.
- ◊ Mae'r cytundeb gyda darparwr presennol y rhyngrwyd yn dod i ben ym mis Mehefin a phenderfynwyd chwilio am ddarparwr arall.
- ◊ Aeth y Cyngh. Butler i gyfarfod yn Rhuthun ar 27 Ebrill i gyfarfod â'r prif weithredwr newydd gyda'r bwriad o drafod siarter newydd rhwng y Cyngor Sir a chynghorau tref/dinas a chymuned. Bydd hyn yn gwella cyfathrebu.
- ◊ Cynrychiolodd y Cynghorwyr Butler a Morris Landyrnog yn y fforwm Tirwedd Genedlaethol (yr hen AHNE) yn Nhremeirchion ar 14 Mai.

## Cyfethol

**Mae dwy sedd wag ar y cyngor cymuned. Mae hyn yn agored i rai sy'n byw a/neu'n gweithio yn y gymuned. Os hoffech wneud cais, cysylltwch â Bryn ar rbrynd1@gmail.com erbyn 12 Mehefin.**

*Argraffwyd gan Mike Neuman    www.neumannprintersdenbigh.co.uk    01745 814067*